# <u>HYSBYSIAD O GYNNIG</u>

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON) (FFYRDD CYFYNGEDIG A 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 03) 202-**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Adran 81, 82 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rhan IV Atodlen 9 y Ddeddf, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a heb Gyfyngiad) 2023, i gyflwyno:

a) Gostwng y terfyn cyflymder presennol o 40mya ar yr:-

**A5026 Ffordd Holway, Treffynnon:**

Gostwng y terfyn cyflymder o 40mya o 371 metr i bwynt 46 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r A5026 Whitford Street, Treffynnon fel sydd i'w weld ar Atodlen Map G24.

b) Cyflwyno Ffordd Gyfyngedig (20mya) ar y:

**A5026 Ffordd Holway, Treffynnon:**

O bwynt 46 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r A5026 Whitford Street, am bellter o 371 metr i'r gogledd-ddwyrain fel sydd i'w weld ar Atodlen Map F24 a G24.

**A5026 Stryd Chwitffordd, Treffynnon:**

O'r gyffordd â'r A5026 Ffordd Holway, am bellter o 47 metr i gyfeiriad y dwyrain ar Atodlen Map G24

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2023 yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r rhesymau dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod neu trwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk (gan ddyfynnu'r cyfeirnod SS/JB/A5026/03) erbyn dydd Gwener 29 Mawrth 2024.

Dyddiedig Dydd Gwener 08 Mawrth 2024

KWilby

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NF